Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

# Goleg Priory Gogledd Cymru

## Dyddiad yr arolygiad:

## 28 a 29 Ebrill 2014

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  03/07/2014**

## Cyd-destun

Coleg annibynnol arbenigol yw Coleg Priory Gogledd Cymru sy'n darparu cymorth a gofal i oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd â syndrom Asperger, anhwylderau'r sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig. Mae'r coleg ger campws Iâl Coleg Cambria. Mae bron pob un o ddysgwyr Coleg Priory yn dilyn cyrsiau amser llawn gyda Choleg Cambria ac yn cael cymorth yn y dosbarth a chymorth ychwanegol gan Goleg Priory yn ôl yr angen.

Gall dysgwyr ddilyn ystod eang o gyrsiau a ddarperir gan Goleg Cambria, ar draws yr holl safleoedd, gan gynnwys gofal anifeiliaid bach, ceffylau, adeiladu a chyrsiau Safon Uwch.

Mae Coleg Priory Gogledd Cymru wedi diwygio'i strwythur rheoli yn ddiweddar.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r coleg:**

- mae ganddo berthynas weithio broffesiynol dda iawn gyda'r coleg addysg bellach lleol i ddarparu ystod eang iawn o gyfleoedd dysgu i ddysgwyr;
- mae gweithwyr cymorth i ddysgwyr yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn deall eu hanghenion cymdeithasol ac emosiynol; mae hyn yn helpu'r dysgwyr i ymgysylltu'n dda â darpariaeth prif ffrwd y coleg;
- mae asesiadau risg ar gyfer dysgwyr unigol yn drylwyr a manwl; ac
- mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â bron pob un o'r argymhellion o'r ymweliad monitro diwethaf.

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd y coleg i'w datblygu:**

- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu (AHA) yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddysgwyr a dysgu; nid oes digon o ffocws ar ddeilliannau a chyflawniad dysgwyr a dim mesurau o safonau yn erbyn targedau;
- nid yw cynllun gweithredu'r coleg yn adlewyrchu'r meysydd datblygu o'r AHA yn ddigon da;
- er bod y coleg yn cynnal gwybodaeth fanwl a pherthnasol ar gyfer pob un o'r dysgwyr mewn ffeiliau personol unigol, nid yw systemau ffurfiol i gofnodi, monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol ac academaidd wedi'u datblygu ddigon. Mae hyn yn golygu nad oes gan y coleg drosolwg o gynnydd a chyflawniad dysgwyr na mesurau o dueddiadau dros gyfnod;
- nid yw'r cysylltiadau rhwng y rhaglenni dysgu galwedigaethol ac academaidd a'r

rhaglenni cymorth yng Ngholeg Priory wedi'u datblygu ddigon. Mae hyn yn golygu na all Coleg Priory wneud y defnydd gorau o'r rhaglenni dysgu galwedigaethol ac academaidd i wella a chefnogi datblygiad cymdeithasol ac addysgol dysgwyr; ac

- nid yw cynlluniau i'r dysgwyr ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol yn cael eu gweddu'n ddigon da yn gyson i'r dyheadau ar gyfer bywydau'r dysgwyr yn y dyfodol.

**Argymhellion**

A1 Diwygio'r adroddiad hunanarfarnu i gynnwys arfarniadau penodol o ddata deilliannau, a chynnydd, cyflawniad a phresenoldeb dysgwyr

A2 Defnyddio'r canfyddiadau o'r adroddiad hunanarfarnu i lywio'r targedau datblygu yn y cynllun gweithredu

A3 Adolygu rhaglenni galwedigaethol ac academaidd dysgwyr i nodi cyfleoedd i staff yng Ngholeg Priory ymestyn a chefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac addysgol dysgwyr

A4 Sefydlu system ffurfiol i olrhain ac arfarnu cynnydd dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol ac academaidd

A5 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau ar gyfer datblygu medrau byw yn annibynnol dysgwyr yn berthnasol a phriodol i'r dyheadau ar gyfer bywydau'r dysgwyr yn y dyfodol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr bod y cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn yr AHA**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae'r AHA wedi cael ei ailgynllunio i fod ar ffurf fformat defnyddiol sydd wedi'i seilio ar y fframwaith arolygu cyffredin. Fodd bynnag, nid yw'r AHA yn ddigon arfarnol i gefnogi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a nodwyd. Mae hyn yn golygu nad yw cynllun gweithredu'r coleg yn adlewyrchu'r meysydd datblygu o'r AHA yn ddigon da.

**Argymhelliad 2: Cysylltu'r polisi gwrth-fwlio â pholisïau eraill, gan gynnwys bwlio seiber, a gwneud yn siŵr bod canllawiau clir i staff ar beth i'w wneud os ydynt yn gweld achosion o fwlio neu os ydynt yn cael gwybod am achosion o fwlio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae cysylltiadau rhwng polisïau yn glir a phriodol. Mae bwlio wedi'i ddiffinio'n glir ac mae bwlio seiber wedi'i gynnwys yn briodol. Ceir gweithdrefnau clir ar gyfer cofnodi achosion a chyfarwyddiadau clir i staff os ydynt yn gweld achosion o fwlio neu os ydynt yn cael gwybod am achosion o fwlio.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod yr holl bolisïau yn benodol i Goleg Priory Gogledd Cymru**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r holl bolisïau wedi cael eu hadolygu a'u diwygio i sicrhau eu bod yn berthnasol i Goleg Priory Gogledd Cymru.

**Argymhelliad 4: Adolygu'r adeiladau presennol i fodloni anghenion y dysgwyr newydd a fydd yn dechrau ym Medi (2013)**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae adeiladau'r coleg yn addas ar gyfer anghenion y dysgwyr presennol. Gall bron pob un o'r dysgwyr hyn gael addysg yn y coleg addysg bellach lleol a mynd yn ôl i ganolfan Coleg Priory i gael cymorth ac amser i ffwrdd o'r amgylchedd dysgu mwy heriol. Mae gan y coleg gynlluniau perthnasol i gaffael adeilad newydd yn ardal Wrecsam i wneud lle i ddysgwyr ag anghenion mwy cymhleth.

**Argymhelliad 5**: **Gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu manteisio'n llawn ar raglen ABCh arfaethedig sy'n cynnwys addysg ryw**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r coleg wedi diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac fe gaiff pob dysgwr sesiwn ABCh wedi'i threfnu bob wythnos. Cynllunnir y sesiynau ABCh i gynnwys rhaglen fanwl o addysg ryw. Caiff y sesiynau hyn eu cyflwyno gan athro arbenigol o'r awdurdod lleol ac mae dysgwyr yn gweithio tuag at ddyfarniadau credydau.

**Argymhelliad 6: Defnyddio gwybodaeth o asesiadau medrau i gynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Caiff pob dysgwr asesiad cychwynnol defnyddiol o'u medrau yng Ngholeg Priory ac fe gaiff y wybodaeth hon ei chofnodi'n dda ar gofnodion dysgwyr. Fodd bynnag, ni wneir digon o ddefnydd o raglenni galwedigaethol ac academaidd dysgwyr i nodi meysydd lle gallai fod angen mwy o gymorth, lle gellir gwella dysgu neu ble gellir trosglwyddo medrau i feysydd dysgu newydd.

**Argymhelliad 7: Diwygio'r polisi diogelu i gynnwys camau penodol a chlir i staff eu dilyn os ceir achos o honiad neu ddatgeliad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r polisi diogelu yn benodol ac fe geir camau clir i staff eu dilyn os ceir achos o honiad neu ddatgeliad.

**Argymhelliad 8: Cyflwyno arwyddion Cymraeg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r coleg wedi cyflwyno arwyddion Cymraeg ar gyfer pob un o'r prif feysydd.

Ni ddylai barnau arolygwyr am yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Priory Gogledd Cymru |
| **Rhif y coleg** | F0006006 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 28 a 29 Ebrill 2014 |
| **Perchennog** | Gwasanaethau Addysg Priory |
| **Staff** | 10 x cynorthwyydd addysgu<br>1.5 x athro |
| **Nifer y dysgwyr** | 8 |
| **Darpariaeth** | Dydd yn unig |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Syndrom Asperger, anhwylderau'r sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Dim arolygiad Adran 163 hyd yn hyn. |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 17 a 18 Ebrill 2013 |
| **Arolygiad diwethaf AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Gill Sims |
| **Arolygydd Tîm** | Anthony Mulcahy |